


Maes Awyr Tyddewi

Teithiau Byr



Maes Awyr Tyddewi

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 2.25 milltir (3.6 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Solfach 411, Pâl Gwibio 400 (tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM786257

I raddau helaeth, mae penrhyn Tyddewi yn wastad - llwyfandir gwyntog sy'n frith o frigiadau o graig folcanig wydn a lwyddodd i wrthsefyll y môr pan erydwyd creigiau meddalach gan y môr 70 miliwn o flynyddoedd yn ôl ac yn ddiweddarach gan rewlifoedd o Oes yr Iâ.

I raddau helaeth, mae'n dirwedd agored, ddigoes, ble mae adar cân fel ehedyddion, corheddyddion y waun a chlochdarod y cerrig yn gyffredin ac, yn aml, fe glywch chi 'cronc' dwfn y gigfran, sy'n sefyll allan.

Heddiw, mae Maes Awyr Tyddewi yn lle heddychlon. Yn y Gwanwyn, mae ehedyddion yn llenwi'r awyr gyda'u cân barhaus ac mae blodau melyn yr eithin yn ychwanegu gwawr o liw at y dirwedd.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd Maes Awyr Tyddewi yn fan o weithgarwch parhaus wrth i Rheolaeth Arfordirol y Llu Awyr Prydeinig gymryd rhan ym Mrwydr yr Atlantig. Fe ddefnyddiai'r LIAP Sir Benfro fel lleoliad ar gyfer ymgyrchoedd awyr dros yr Atlantig, ble yr oedd minteioedd a gariai gyflenwadau o dan fygythiad parhaus ymosodiad gan longau tanfor Almaenig.

Roedd Maes Awyr Tyddewi yn un o wyth maes awyr yn y sir, ac fe'i agorwyd yn Haf 1943. Roedd ganddo dair rhedfa ac fe fyddai bomwyr yn

hedfan oddi yno ar batrôl morol. Roedd sgwadronau o fomwyr Fortress, Halifax a Liberator yn hedfan o'r maes awyr.

Yn ystod y rhyfel, roedd Tyddewi yn brif ganolfan tra bod Brawdy, ger Niwgwyl, yn is-orsaf. Parhaodd awyrennau milwrol i ddefnyddio Tyddewi hyd nes 1960 ac, yn ddiweddarach daeth yn ardal lanio eilaidd.

Yng nghanol y 1990au, fe brynodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol y rhan fwyaf o'r maes awyr nad oedd yn cael ei ddefnyddio ac fe ddechreuodd brosiect tirwedd sylweddol i adfer ac ail-greu cynefinoedd bywyd gwylt ac i ddiogelu mwynhad a mynediad y cyhoedd. Dychwelwyd gweddill y maes awyr at ddefnydd ffermio.

Roedd y gwaith yn cynnwys adfer ardal o weundir gwlyb isel, rhywbeth na geisiwyd ei wneud o'r blaen. Fe gafodd yr Awdurdod gymorth yn y prosiect gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Erbyn hyn, mae rhan o'r hen faes awyr yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac mae'n cynnwys gweundir a gwlyptir o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae yna lwybrau troed a ffyrdd seiclo yn croesi'r hen faes awyr.

Yn 2002 cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Cymru ar y safle. Bellach, Cerrig yr Orsedd - sy'n cynnwys cerrig a gasglwyd o ffermydd lleol gan wirfoddolwyr - yw'r unig atgof o'r digwyddiad diwylliannol pwysig hwn.

